**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl aelodau'r Cynulliad

14 Chwefror 2020

Annwyl Aelod Cynulliad,

Cyfeiriaf at fy Natganiad Llafar yn y Sesiwn Llawn ar 29 Ionawr a'r pecyn Trawsnewid Trefi gwerth £90 miliwn y cyhoeddais. Wrth ymateb i gwestiwn gan Mark Isherwood, dywedais y buaswn yn ysgrifennu at aelodau gyda manylion y pecyn a'r amserlen gysylltiedig.

Mae bron y cwbl o'r cyllid yn berthnasol i'r cyfnod 2020-22, ond mae'r union flwyddyn neu flynyddoedd yn amrywio yn ôl yr elfen dan sylw. Mae'r tabl atodedig yn gosod allan y sefyllfa ar gyfer y prif elfennau.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Trawsnewid Trefi – manylion ariannol yr elfennau

| **Disgrifiad** | **Swm** | **Am beth?** | **I bwy?** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|---|
| Ymestyn cyllid grant cyfalaf am flwyddyn arall (2021-22) | **£57.6 m** (£36m LlC a £21.6m gan eraill) | Ariannu prosiectau adfywio yng nghanol trefi | Awdurdodau lleol a phartneriaid | 2021-22 |
| Cronfa cefnogi Gorfodi | **£13.6m** | Cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi ar eiddo gwag ac adfeiliedig | Awdurdodau lleol | 2020-21 ymlaen |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi | **£10m** | Arian benthyg i gefnogi prosiectau sy'n dod ag eiddo gwag yng nghanol trefi i ddefnydd unwaith eto | Sector preifat trwy awdurdodau lleol | 2020-21 (i'w ailgylchu wedi hynny) |
| Cronfa seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth | **£5m** | Ar gyfer prosiectau gwyrdd a fydd yn sicrhau manteision amgylcheddol ac yn gwneud canol trefi yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â hwy | Awdurdodau lleol a phartneriaid | 2020-21 |
| Cronfa Trefi Arfordirol | **£3m** (£2m LlC ac amcangyfrif o £1m gan eraill) | Prosiectau sy'n cefnogi'r gwaith o adfywio'r stryd fawr/canol trefi arfordirol | Sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector | 2021-23 |
| Cronfa refeniw Trawsnewid Trefi ar gyfer awdurdodau lleol | **£0.5m** | Er enghraifft, i gefnogi uwchgynllunio, datblygu prosiectau, datblygiadau digidol, ymgysylltu â chymunedau/rhanddeiliaid | Awdurdodau lleol | 2020-21 |